County Hall
Cardiff
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2000

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2000

# AGENDA

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL |
| **Dyddiad ac amser y cyfarfod** | DYDD MERCHER, 12 MEHEFIN 2019, 4.30 PM |
| **Lleoliad** | YSTAFELL BWYLLGOR 4 - NEUADD Y SIR |
| **Aelodaeth** | Cynghorydd Patel (Cadeirydd)<br>Y Cynghorwyr Boyle, Derbyshire, Owen Jones, Lancaster, Jackie Parry, Owen, Wong a/ac Wood |

Tua Amser.

**1 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2 Penodi Cadeirydd ac Aelodaeth**

Nodi bod y Cyngor yn y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd ar 23 Mai 2019 wedi penodi'r Cynghorydd Ramesh Patel yn Gadeirydd y Pwyllgor ac yn dilyn yr Aelodau i'r Pwyllgor hwn:

Cynghorydd Boyle, Derbyshire, Jones, Lancaster, Owen, Jacqui Parry, Wong and Wood

**3 Cylch Gorchwyl**

Rôl y Pwyllgor hwn yw craffu, mesur a hyrwyddo gwelliant ym mherfformiad y Cyngor o ran cynnig gwasanaethau a chydymffurfio â pholisïau, nodau ac amcanion y Cyngor ym maes cynaliadwyedd amgylcheddol, yn cynnwys:

Polisi Cynllunio Strategol
Polisi Cynaliadwyedd
Polisi Iechyd yr Amgylchedd
Polisi Diogelu'r Cyhoedd
Polisi Trwyddedu
Rheoli Gwastraff
Projectau Gwastraff Strategol
Glanhau Strydoedd
Beicio a Cherdded
Y Strydlun
Partneriaeth Trafnidiaeth Strategol

Polisi a Datblygu Trafnidiaeth
Atebion Trafnidiaeth Deallus
Trafnidiaeth Gyhoeddus
Rheoli Parcio

Asesu effaith partneriaethau gyda, adnoddau a gwasanaethau a gynigir gan sefydliadau allanol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gwasanaethau llywodraeth leol ar y cyd, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff lled-adrannol anllywodraethol ar effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor.

Adrodd y canfyddiadau yn y cyfarfod Cabinet neu Gyngor perthnasol a rhoi argymhellion ynghylch mesurau a all wella perfformiad y Cyngor a'i wasanaethau yn y maes.

**4 Datganiadau o Fuddiant**

Dylid gwneud hyn ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw, yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

**5 Craffu Cyn Penderfyniad: Cynllun Terfynol Astudiaeth o Ddichonoldeb Ansawdd Aer - Achos Busnes Llawn a Gwelliannau i Drafnidiaeth yng Nghanol y Ddinas** *(Tudalennau 5 - 622)* 4.35 pm

Eitem i roi'r cyfle i Aelodau graffu cyn gwneud penderfyniad ar yr eitem a gaiff ei rhoi gerbron y Cabinet ar 13 Mehefin 'Cynllun Terfynol Astudiaeth o Ddichonoldeb Ansawdd Aer - Achos Busnes Llawn a Gwelliannau i Drafnidiaeth yng Nghanol y Ddinas'.

**6 Materion Brys (os o gwbl)**

**7 Y Ffordd Ymlaen**

Adolygu'r dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd wrth ystyried pob eitem agenda, cytuno ar sylwadau, argraffiadau a phryderon yr Aelodau i'w cyfleu i'r Aelod Cabinet perthnasol gan y Cadeirydd, a nodi eitemau i'w cynnwys ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor.

**8 Dyddiad y cyfarfod nesaf.**

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**
Dyddiad: Dydd Iau, 6 Mehefin 2019
Cyswllt: Graham Porter, 02920 873401, g.porter@caerdydd.gov.uk

## GWE-DARLLEDU

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Gall aelodau'r cyhoedd hefyd ffilmio neu recordio'r cyfarfod hwn

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd